# Adroddiad Arolygu

**Camau Cyntaf Llanhari / First Steps Llanhari**

**Caban Clyd**
**Ysgol Llanhari**
**Llanhari**
**Pont-y-clun**
**CF72 9XE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# About Camau Cyntaf Llanhari / First Steps Llanhari

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Camau Cyntaf i Ddysgu C.B.C |
| Lleoedd cofrestredig | 69 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad cyntaf ers ailgofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cael cyfleoedd helaeth i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ac o ganlyniad, mae ganddynt lais cryf. Maent yn eithriadol o hapus, wedi setlo, ac mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn ganmoladwy. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda iawn.

Mae gan y staff ddealltwriaeth drylwyr o'u rôl ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant personol ar waith yn llawn. Maent yn hybu canlyniadau cadarnhaol yn effeithlon i'r holl blant drwy eu gwybodaeth, gan ddarparu amgylchedd sy'n fagwrus ac o dan arweiniad y plentyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safleoedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae amrywiaeth o lefydd chwarae sy'n annog y plant i chwarae a dysgu, ac mae'r rhain yn hybu annibyniaeth y plant. Mae digon o gyfarpar yn yr ardal awyr agored hefyd ond ni chaiff ei ddefnyddio bob amser fel estyniad i'r amgylchedd dan do. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau a chyfarpar ar gael i’r plant er mwyn meithrin sgiliau datblygiadol cyffredinol y plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth ragorol ac maent yn rhedeg lleoliad sy'n effeithiol iawn ac wedi ei drefnu'n dda. Maent yn rheoli'r broses o recriwtio a staff yn eithriadol o dda, gan herio pawb i wneud eu gorau a gosod disgwyliadau uchel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal cysylltiadau llwyddiannus gydag asiantaethau allanol ac yn meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni, sy'n fodlon iawn ar y gofal y mae eu plant yn ei gael.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus iawn ac mae ganddynt lais cryf iawn yn y lleoliad. Maent yn cael cyfleoedd da iawn i gyfrannu at eu syniadau wrth gynllunio’r gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r plant yn hunangofrestru ac yn cyfathrebu sut y maent yn teimlo. Maent yn hyderus wrth gyfathrebu â'i gilydd ac â'r staff. Er enghraifft, gofynnodd y plant a oedd am baentio llun am bapur yn hyderus a gwnaethant gwblhau'r gweithgaredd o'u dewis. O ganlyniad, mae'r plant yn gwybod y bydd y staff yn gweithredu ar eu safbwyntiau a'u diddordebau ac yn eu parchu.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn ac maent yn eithriadol o hapus yn y lleoliad. Wrth iddynt gyrraedd y lleoliad, maent yn mynd yn syth i chwarae yn un o'r ardaloedd ac yn helpu eu hunain i'r adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o falchder. Er enghraifft, roeddent yn gwenu wrth i'r staff eu canmol am osod eu heiddo ar y pegiau ac am ymgymryd â'r gweithgaredd grŵp. Arweinia hyn at deimlad cryf o hunan-barch ymhlith y plant.

Mae'r rhyngweithio'n ardderchog. Mae'r plant yn rhyngweithio'n eithriadol o dda â'r staff sy'n gyfarwydd iawn iddynt. Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn â'i gilydd ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd. Mae'r plant yn siarad yn hapus ac yn astud o amgylch y bwrdd yn ystod amser byrbryd. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r staff sy'n eu hannog i roi cynnig ar fwydydd newydd a llongyfarch ei gilydd wrth wneud hynny. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol iawn yn ystod amser chwarae hefyd ac maent yn meithrin cydberthnasau adeiladol. Er enghraifft, wrth chwarae yn y tywod, roeddent yn siarad â'i gilydd yn naturiol ac yn trafod sut i adeiladu castell a symud y tywod.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu yn fawr iawn ac yn cymell eu hunain yn y gweithgareddau byddant yn eu dewis. Mae'r plant iau yn cael llawer o hwyl wrth iddynt gyd-chwarae'n hapus gyda'i gilydd ar y llithren. Maent yn sgrechian yn gyffrous ac yn llongyfarch ei gilydd am gyrraedd y gwaelod. Mae'r plant yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddangos i'r oedolion beth maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, roedd rhai plant eisiau dangos eu gwaith celf i ni ac roeddent yn trafod llygaid yr ysbryd yn y llun. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn awyddus i ymuno yn y sesiynau grŵp ac yn ymgysylltu'n eiddgar â'r gweithgaredd dawnsio a symud.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da iawn i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn defnyddio'r cyfleusterau toiled yn rhydd, gan olchi eu dwylo'n annibynnol a thacluso'n fedrus ar ôl chwarae. Maent yn naturiol yn ceisio gwneud pethau'n annibynnol cyn i'r staff ymyrryd, megis gwisgo eu cotiau cyn mynd allan a chasglu eu heiddo. Maent yn symud o amgylch yr ardaloedd dysgu yn hyderus, gan gael gafael ar adnoddau i gefnogi eu diddordebau.

## Gofal a Datblygiad **Rhagorol**

Mae'r staff yn deall polisïau i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plant ac yn eu rhoi ar waith yn llawn. Maent yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, gan eu galluogi i ddelio â mân ddamweiniau yn hyderus. Mae'r staff yn hybu bwyta'n iach drwy baratoi byrbryd iach dyddiol, a chynigir llaeth a dŵr i'w yfed. Maent yn cael hyfforddiant hylendid bwyd perthnasol ac yn dilyn gweithdrefnau glanhau cywir fel rhan o'r broses rheoli heintiau er mwyn helpu i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Maent yn hyrwyddo llesiant corfforol y plant yn llwyddiannus drwy ymarfer corff rheolaidd, megis ioga, dawnsio, a chwarae yn yr awyr agored ar adegau penodedig. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o weithdrefnau amddiffyn plant a gwnaethant ymateb yn dda i'r senarios a drafodwyd yn ystod yr arolygiad. Maent yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'u dyletswydd i roi gwybod i'r swyddog diogelu am bryderon. Mae'r staff yn cwblhau ymarferion tân rheolaidd sy'n cael eu hamseru, eu dyddio, a'u gwerthuso i sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau. O ganlyniad, caiff diogelwch ac iechyd y plant ei hyrwyddo bob amser.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn rhoi canmoliaeth, anogaeth ac yn rhoi atgyfnerthiad cadarnhaol i'r plant yn rheolaidd am ymddygiad da ac am gyflawni eu nodau. Mae'r staff yn fodelau rôl rhagorol. Maent yn annog moesau da ac yn atgoffa'r plant i ddweud ‘plîs’ a ‘diolch’ fel mater o drefn. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn eu gofal. Dengys y staff ddiddordeb gwych yng ngweithgareddau'r plant wrth iddynt chwarae ac maent yn trafod tasgau mewn ffordd bwyllog a chefnogol iawn. Er enghraifft, gwelsom staff yn cynnig cymorth a gwahanol ddatrysiadau pan roedd dau blentyn yn adeiladu gwialenni pysgota. Ymatebodd y plant drwy ddefnyddio'r un iaith gadarnhaol â'i gilydd, gan arwain at ryngweithio cadarnhaol rhwng y plant. Mae'r rhyngweithio bob amser yn gynnes, yn ddiddorol ac yn dangos dealltwriaeth a charedigrwydd sensitif a gwirioneddol tuag at y plant. O ganlyniad, mae ymddygiad a rhyngweithio'r plant yn gryf iawn.

Mae'r staff yn sicrhau mai'r plant sydd wrth wraidd eu dysgu eu hunain. Maent yn cefnogi penderfyniadau'r plant, gan ganiatáu iddynt gael cyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i gael mewnbwn rheolaidd yn y broses cynllunio. Mae'r staff yn goruchwylio cynnydd y plant ac yn asesu eu datblygiad er mwyn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf drwy drefnu gweithgareddau sy'n bodloni eu diddordebau. Mae'r staff yn cefnogi anghenion ychwanegol y plant yn llawn ac yn darparu ar eu cyfer. Maent yn cymryd camau pwrpasol mewn modd amserol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r strategaethau i gefnogi'r plant. Mae'r plant yn mynd i'r ysgol gynradd Gymraeg ac mae'r staff yn sicrhau eu bod yn hyrwyddo'r Gymraeg bob amser.

Mae llawer o'r staff yn llwyddo i drochi'r plant yn y Gymraeg mewn ffordd fedrus drwy ganeuon a straeon a thrwy weithgareddau â phwyslais penodol fel amser canu. Mae lleiafrif o'r staff yn datblygu eu hiaith Gymraeg ac yn rhagweithiol wrth wneud hynny, gan ymgysylltu â'r plant pan fyddant yn dysgu geiriau a geirfa Gymraeg newydd. Mae'r plant yn ymateb yn frwdfrydig i'r cwestiynu effeithiol a'r naws gadarnhaol y mae'r staff yn modelu'n fedrus iddynt.

## Yr Amgylchedd Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r safle yn adeilad newydd sydd wedi'i leoli ar dir Ysgol Llanhari ac mae'n olau, wedi'i awyru'n dda ac mewn cyflwr da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnod o'r ymwelwyr sy'n dod i mewn drwy'r brîf ddrws diogel. Maent yn sicrhau bod meddyginiaeth a deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd y plant. Mae trefniadau glanhau cyson yn arwain at amgylchedd eithriadol o lân ac sydd mewn cyflwr da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau asesiadau risg manwl, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhain yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol a gaiff eu cwblhau gan y staff i nodi risgiau i'r plant ac i'w dileu cymaint â phosibl. Maent yn gweithio gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol i gwblhau'r holl waith cynnal a chadw ar yr adeilad ac i wasanaethu cyfleustodau a chyfarpar.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd ar gyfer y plant a'r oedolion gyda swyddfa ar gyfer sgyrsiau cyfrinachol, a chegin ac ystafell staff ar gael ar wahân. Mae cyfleusterau da ar gael er mwyn i'r plant ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo yn annibynnol, ac mae'r rhain yn sicrhau ac yn parchu eu preifatrwydd. Mae'r ardaloedd dan do ac awyr agored wedi eu trefnu'n briodol gyda pharthau diddorol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r plant yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn effeithiol dan do. Mae drysau mawr a llydan yn arwain o'r ardal dan do i ardal â chysgodfa ar gyfer dysgu a chwarae ym mhob tywydd. Fodd bynnag, ni chaiff ei defnyddio'n gyson i'w llawn botensial. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd cyfleoedd i symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd dan do ac awyr agored am fod y plant yn mynd y tu allan ar adegau penodedig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu gwybodaeth glir am y lleoliad i'r rhieni ac ymwelwyr. Mae gwybodaeth amrywiol gan gynnwys manylion staff, bwydlenni, cadw draw oherwydd salwch a gwybodaeth am ddiogelwch yn cael ei harddangos wrth brif fynedfa'r adeilad. Mae'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn ddeniadol gyda gwaith celf a ffotograffau'r plant yn cael eu harddangos. O ganlyniad, mae'r plant yn falch o'u gwaith ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adnoddau o ansawdd da. Mae'r dodrefn dan do, y cyfarpar a'r teganau yn briodol, o safon uchel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Yn yr ardal awyr agored, mae ystod dda o adnoddau ac ardaloedd dysgu. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad nid oedd rhai o'r adnoddau mewn cyflwr da. Cafodd hyn ei drafod, ac ers yr arolygiad mae'r person â chyfrifoldeb wedi rhoi gwybod eu bod wedi dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn. Maent yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau yn cael eu cadw ar lefel y plant ac ar gael iddynt. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn â'r weithred o nôl cyfarpar a'i ddychwelyd i'r lleoedd priodol sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau ysgogol ar gyfer pob oedran a cham datblygu. Mae hyn yn hyrwyddo sgiliau'r plant drwy chwarae synhwyraidd, dychmygol a chreadigol, a chwarae corfforol. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd risgiau ac yn datblygu eu sgiliau yn ystod chwarae rôl yn y gornel gartref gan ddefnyddio 'offer gwir' megis cwpanau, soseri a thebotau. Mae'r adnoddau dychmygol hyn a'r dodrefn pren cadarn yn cynnig cyfleoedd dysgu. Hefyd, caiff datblygiad personol a chymdeithasol y plant ei annog yn dda gan fod teganau a llyfrau amlddiwylliannol ar gael iddynt. Caiff eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd ei ddatblygu drwy ddefnyddio deunyddiau a chyfleusterau ailgylchedig.

| **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn effeithiol iawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag AGC ac yn awyddus i ysgogi gwelliant. Mae'r person â chyfrifoldeb yn brofiadol ac mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y lleoliad, a chaiff ei rannu'n effeithiol â'r staff a rhanddeiliaid eraill. Mae'r tîm yn cael budd o rwydwaith cymorth cadarn y cwmni a'i brosesau sefydledig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith a chaiff cofnodion eu cadw.

Mae'r broses hunanwerthuso yn ganmoladwy. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fyfyriol ac yn nodi'r meysydd o gryfder ac sydd i'w gwella, gan ystyried safbwyntiau'r staff, y rhieni a'r plant. Maent yn sicrhau bod hyn yn broses barhaus o nodi agweddau cryf y lleoliad yn ogystal â'r rheini sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gosod, ac yn gwerthuso blaenoriaethau priodol, gan nodi targedau ar gyfer y lleoliad yn gywir yn y cynllun gwella. Enghraifft o un o'r blaenoriaethau hyn yw rhoi'r system gynllunio newydd ar waith ac i sicrhau bod yr holl staff yn effeithiol yn eu rolau i hwyluso'r dysgu ym mhob maes dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn paratoi cynllun gweithredu clir sydd â thargedau mesuradwy ac amserlenni ar waith i yrru'r gwelliannau hyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli staff yn effeithiol ac yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn. Maent yn sicrhau bod digon o staff cymwysedig i ofalu am y plant a bod y gymhareb rhwng yr oedolion a'r plant yn cael ei chynnal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cwblhau cymwysterau gorfodol a bod gan yr holl staff dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gyfredol. Maent yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd ac yn cynllunio ar gyfer datblygiad y staff. Mae'r staff yn cwblhau taflenni trosolwg wythnosol sy'n bwydo i mewn i'r adolygiad o'r lleoliad. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn yn gweithio yn y lleoliad a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda iawn gan yr arweinwyr, sy'n hawdd mynd atynt. O ganlyniad, mae'r staff yn hyderus ac yn angerddol am eu gwaith ac yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau i fod o fudd i'r plant yn eu gofal.

Mae'r partneriaethau yn ardderchog. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cadarnhaol ag ystod eang o weithwyr proffesiynol, ysgolion a rhanddeiliaid eraill. Maent yn sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau gyda rhieni yn werthfawr i allu hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Er enghraifft, mae'r staff yn defnyddio'r ap i ddogfennu cyflawniadau'r plant ac i rannu gwybodaeth â'r rhieni megis lluniau ac arsylwadau, yn ogystal â gwybodaeth am eu gofal personol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn gweithio gyda'r rhieni wrth ystyried camau nesaf y plant ac yn cynnwys y rhieni wrth osod targedau ar gyfer y plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith er na dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae'r rhieni yn llawn canmoliaeth i'r lleoliad. Maent yn canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael, gan sylwi ar ymdeimlad cartrefol y lleoliad. Dywedodd rhieni wrthym hefyd eu bod o'r farn bod y staff yn cefnogi anghenion unigol eu plant a'u bod yn cyfathrebu'n rhagorol â nhw drwy'r ap.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| **Argymhelliad/argymhellion** |
| Darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddatblygu eu sgiliau yn ardal awyr agored ac i sicrhau y gallant symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd dan do ac awyr agored. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/12/2023